# Cyngor Cymuned Tudweiliog
## Tudweiliog Community Council

Heulwen Williams
Clerc/clerk
01758 770415

Pen Cefn,
Dinas,
Pwllheli.
LL53 8UB.

### Cofnodion Cyngor Cymuned Tudweiliog 10fed Chwefror2025
### Festri Capel Dinas

Presennol: Terry Huws, Dafydd Williams, Gareth Jones, Chris Brady, Deio Williams, Sian Parri, Alun Williams, Alan Hughes, Henry Hughes, John Daves, Sioned Pearson

Ymddiheuriadau: Catrin Williams

1. Cadeirwyd gan Sioned Pearson, estynnodd groeso i bawb.

2. Derbynwyd y cyfnodion diwethaf fel rhai cywir.

3. Materion yn codi o'r cofnodion:
   a. **Mynwent Newydd Tudweiliog-** Adroddodd Chris Brady ar ran pwyllgor y fynwent eu bod wedi cysylltu a chwmni Haydn E Williams cyf, a bod cynlluniau wedi eu creu gan y cwmni (gweler gopi ar y dudalen nesaf) – awgrymwyd man newidiadau i'r cynllun (mwy o safle parcio) a bod y ffurflen cais cynllunio yn awr yn barod i'w ail chyflwyno.
   b. **Carafan heb ganiatad Llangwnnadl –** Derbynwyd ymateb gan y Cynghorydd Gareth Jones yn ein gwybyddu ei fod yntau yn rhoi pwysa ar yr Adran Gorfodaeth i edrych i fewn i'r mater yma.
   c. **Gwaith adeiladu yn Rhos y Grug** – Derbynwyd ymateb gan y Cynghorydd Gareth Jones yn ein gwybyddu ei fod yntau yn rhoi Pwysa ar yr Adran Gorfodaeth i edrych i fewn i'r mater.
   Ch. **Gwaith adeiladu yn Lion Tudweiliog –** Derbynwyd gadarnhad gan yr Adran Gorfodaeth eu bod yn delio gyda'r mater, ac y bydd yn gwybyddu'r Cyngor Cymuned pan fydd penderfyniad ffurfiol wedi ei wneud.

**d.Difrod Porth Cyngod –** Ni chafwyd ymateb.

dd. **Polisi Gosod Tai** – Yn dilyn y pryder a godwyd mis diwethaf fod tai cymunedol yr ardal yn cael eu gosod i bobl tu allan i Gymru, ysgrifennodd y Clerc ebost a'i anfon at:

carysfonwilliams@gwynedd.llyw.cymru
dafyddgibbard@gwynedd.llyw.cymru
aled.davies@adra.co.uk
Catrin.Roberts@grwpcynefin.org
Steffan.Smith018@gov.wales
ieuanwyn01@gmail.com
post@cymdeithas.cymru
dylanbryn@dyfodol.net
Cynghorydd.PaulRowlinson@gwynedd.llyw.cymru
cynghorydd.garethjones@gwynedd.llyw.cymru
liz.savilleroberts.mp@parliament.uk
Sian.Gwenllian@senedd.wales
Mabon.Ap.Gwynfor@Senedd.Cymru
post@comisiynyddygymraeg.cymru
Dylan.Jones@cyg-wlc.cymru
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru

Derbynwyd ymateb gan Carys Fon Williams yn datgan bod yr egwyddor o roi blaenoriath i bobl leol wrth graidd Polisi Gosod Cyffredin Gwynedd, ai fod yn faen prawf allweddol ar gyfer holl osodiadau a wneir yn y Sir. Mae hefyd prawf ychwaneogol o fewn y polisi sy'n rhoi blaenoriaeth pellach i bobl a chysylltiad a'r gymuned a bod 97% o holl osodiadau'r sir ar gyfartaledd yn mynd i rywun a chysylltiad Gwynedd ac oddeutu 60% or gosodiadau yn mynd i rywun a chysylltiad a'r gymuned.

Bydd y Clerc yn anfon nol at Carys yn gofyn iddi egluro beth yn union sydd yn cyfrif fel 'derbyn darpariaeth Gwynedd' yng nghyd-destyn 'cysylltiad Gwynedd' Bydd y Clerc hefyd yn tynnu sylw i prosiect Perthyn a waned yn Tudweiliog sy'n dagnos nad oes yna gyswllt rhwng 'person lleol' a 'pherson sy'n siarad Cymraeg' felly mae pob disgrifiad gwahanol o 'lleol' yn amherthnasol o ran gwarchod y Gymraeg. Bydd Cyngor cymuned Tudweiliog yn gofyn am gymorth a chydweithrediad Cyngor Gwynedd i sefydlu Polisi Gosod Lleol gyda'r nod i gynyddu niferoedd siaradwyr Cymraeg.

4. Gohebiaeth:

a. **Cyflog y Clerc -** Cafwyd caniatad i'w dalu..
b. **Talu anfoneb JA Pozzi £684.00 –** Derbynwyd caniatad i'w thalu
c. **Memorandwm o Ddealltwriaeth Cynghorau Cymunedaru Cymraeg Gwyndd –** trafodwyd a derbynwyd y memorandwm

**d. Buddiannau aelodau 2024/2025 –** Bydd rhain yn aros fel rhai llynnedd.

dd. **Ail Gyfarfod Cynghorau Cymuned Llyn** – Bydd Henry Hughes a Sian Parri yn cynrhychioli Cyngor Cymuned Tudweiliog yn yr ail Gyfarfod fydd yn digwydd Fawrth 19eg am 7 o'r gloch yn Neuadd Sarn.

**e. Cais am Ysgol Ddeintyddol ym Mangor** – bydd Cyngor Cymuned Tudweiliog yn cefnogi'r cais.

**f. Argymhellion y Cymisiwn Cymunedau Cymraeg** – bydd Cyngor Cymuned Tudweiliog yn cefnogi'r bwriad drwy anfon at Mark Drakeford ac Eluned Morgan.

5 . Rhannu'r Preasept: penderfynnwyd fel a ganlyn-

£300.00 Mynwent Dinas
£500.00 Mynwentydd Bro Madryn
£300.00 Canolfan Llaniestyn
£300.00 Canolfan Llangwnnadl
£300.00 Cylch Meithrin Edern

5. Unrhyw fater arall

Cynhelir y cyfarfod nesaf Nos Lun Mawrth 10ed am 7.30yh
Festri Capel Garnfadryn.